MC
MATERION CASNEWYDD
Papur newydd swyddogol Cyngor Dinas Casnewydd

MEDI 2019. Rhifyn 24

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

GPS: 3,000 O BOBL YN CAEL TOCYNNAU

Rhoddwyd dros 3,500 o hysbysiadau tâl cosb i yrwyr yn y mis cyntaf yn dilyn Cyngor Dinas Casnewydd yn cymryd drosodd yr awenau Gorfodi Parcio Sifil (CPE) gan Heddlu Gwent.

Ar y cyfan, mae tîm y swyddogion parcio sifil wedi cael ymateb positif gan breswylwyr a busnesau lleol nawr bod y gwaharddiad ar barcio anghyfreithiol yn ei anterth.

Mae'r cyngor hefyd yn gwerthfawrogi bod pobl wedi cymryd yr amser i ddweud wrtho lle mae'r problemau parcio **(www.newport.gov.uk/cpe).** Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i drefnu patrolau'r dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Roger Jeavons, Aelod Cabinet dros wasanaethau'r ddinas bod gorfodi parcio sifil wedi gweld gostyngiad yn nifer y ceir sy'n cael eu parcio'n anghyfreithiol

"Dim ond megis dechrau mae ein gwasanaeth newydd ond serch hynny, rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan y gymuned leol o ganlyniad i'r cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am orfodi parcio sifil ar l Gorffennaf.

"Mewn rhai ardaloedd, mae'n amlwg iawn bod gyrwyr yn deall y neges os ydyn nhw yn parcio'n anghyfreithiol a swyddog parcio sifil yn dyst i hyn, byddan nhw'n cael Hysbysiad Tâl Cosb," meddai'r Cynghorydd Jeavons.

YR ÛWYL FWYD YN ADDO I FOD YN HWYL I BOB OED

Arweinydd y Cyngor y Cynghorydd Debbie Wilcox gyda Maer y llynedd y Cynghorydd Malcolm Linton a'r Spice Girls - enillwyr Pen-gogyddion Ifanc Ysgol Uwchradd Sant Julian

Disgwylir i filoedd o bobl ymgynnull yng nghanol y ddinas y mis nesaf i fwynhau Gŵyl Fwyd boblogaidd Casnewydd a gynhelir yn flynyddol.

Cynhelir y digwyddiad am ddim hwn Ddydd Sadwrn 5 Hydref gan Gyngor Dinas Casnewydd ac fe'i cefnogir gan Friars Walk, Grŵp Pobl ac aelodau o Ardal Gwella Busnes Casnewydd.

Un o uchafbwyntiau'r digwyddiad eleni fydd amrywiaeth o arddangosfeydd gan ben-gogyddion lleol a chenedlaethol gan gynnwys Matthew Pritchard, y pen-gogydd o Dirty Sanchez TV a chyflwynydd rhaglen goginio fegan y BBC – Dirty Vegan sydd wedi cael ei drefnu gan Friars Walk.

Hefyd, cynhelir rhaglen o arddangosfeydd gan ben-gogyddion yng Ngheginau'r ÛWyl sydd wedi'u lleoli ym marchnad Casnewydd ac yng nghyntedd swyddfeydd Grŵp Pobl ar ben uchaf y Stryd Fawr.

Bydd pen-gogyddion lleol gan gynnwys Hywel Jones, noddwr Gŵyl Fwyd Casnewydd, Anil Karhadkhar o Curry on the Curve a Ben Periam o The Pod yn arddangos eu sgiliau i bobl gael blas ar eu bwyd a rhoi cynnig ar y ryseitiau yn y tŷ. Hefyd, cynhelir rownd derfynol gyffrous y gystadleuaeth Pen-gogydd Ifanc flynyddol i bobl ifanc lleol sy'n awyddus i ddangos eu sgiliau am 11am ar y diwrnod.

Bydd Côr Cymunedol Casnewydd yn perfformio rhwng arddangosfeydd y pen-gogyddion yng Nghegin yr ÛWyl yn y Farchnad.

Gobeithio na fydd hi'n bwrw glaw. Fodd bynnag, fydd y tywydd ddim yn atal yr ymwelwyr rhag dod draw – y llynedd, daeth dros 18,000 o bobl i fwynhau arlwy'r ŵyl. Eleni, bydd dros 70 o wahanol stondinau yn leinio'r Stryd Fawr, Stryd y Bont a Sgwâr Westgate a gall yr ymwelwyr gael blas ar nwyddau cynhyrchwyr bwyd a diod lleol a chenedlaethol.

Bydd yna frownis gludiog, pice ar y maen, siytni, selsig, wyau selsig, peis a phicls ar werth ynghyd â dewis helaeth o Gin sydd wedi dod yn boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf ac wrth gwrs, bydd yna sawl microbragdy yn cynnig eu diodydd gorau a chyrfau poblogaidd.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Rydym ni, ynghyd â'n cefnogwyr, yn falch iawn o gynnal Gŵyl Fwyd hynod boblogaidd Casnewydd unwaith eto eleni yng nghanol y ddinas.

"Rwy'n bendant y byddwn yn croesawu miloedd o drigolion ac ymwelwyr i'n digwyddiad am ddim.

"Bydd yna ddigon ar gael i ddiddanu pobl o bob oed ac rwy'n hynod o falch y bydd y gystadleuaeth Pen-gogydd Ifanc yn cael ei chynnal eto eleni hefyd.

"Gobeithio yn fawr y bydd y tywydd o'n plaid. Rwy'n edrych ymlaen at eich gweld yno."

CYNLLUN LLESIANT I'R DDINAS

Mae Casnewydd yn Un, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y ddinas, wedi datblygu cynllun llesiant ar gyfer 2018-23 sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r camau i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y ddinas.

Nodir yn ei adroddiad blynyddol cyntaf y cynnydd a wnaed wrth gyflawni ei amcanion.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Cadeirydd Casnewydd yn Un ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd:

"Mae'r flwyddyn gyntaf hon wedi bod yn brysur, cadarnhaol a llwyddiannus ac rydym yn credu y dengys yr adroddiad blynyddol hwn ein bod yn cyflawni cynllun Llesiant cytbwys, gan ddefnyddio'r bum ffordd o weithio ac ymdrochi yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cynllun llesiant pum mlynedd yn gosod blaenoriaethau a chamau gweithredu Casnewydd yn Un tan 2023.

I gael gwybod mwy am Casnewydd yn Un ac o ddarllen yr adroddiad blynyddol ewch i **www.newport.gov.uk/onenewport**

CYNNIG I WNEUD CASNEWYDD YN RHAN O "BWERDY ECONOMAIDD"

Yn ystod yr haf, cyflwynwyd adroddiad i uwch wleidyddion y DU oedd yn nodi argymhellion i "uwchwefrio" yr economi o Swindon i Abertawe.

Dinasoedd Mawr y Gorllewin – cydweithrediad rhwng Casnewydd, Caerdydd a Bryste – gomisiynodd yr adroddiad The Powerhouse for the West.

Mae'n cyflwyno tystiolaeth gref dros bartneriaeth draws-ffiniol ynghyd â chynigion i ysgogi gwell seilwaith, buddsoddiad, rhyngwladoli a thwf cynhwysol ar draws rhanbarth sy'n cynnwys saith dinas, 4.4 miliwn o bobl, 156,000 o fusnesau ac economi gwerth £107 biliwn.

Amlygir pum maes cydweithredu yn yr adroddiad a wnaed gan Metro Dynamics:

- strategaeth ddiwydiannol sy'n cysylltu cryfderau sectorau;
- integreiddio gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd er mwyn galluogi cysylltedd cyflymach;
- strategaeth ryngwladoli sy'n hyrwyddo cryfderau diwydiannol y rhanbarth;
- sefydlu arsyllfa cynhyrchiant ac arloesedd sy'n gwneud defnydd gwell o'n data;
- treialu a mesur dulliau wedi'u teilwra o gysylltu'r cymunedau mwyaf difreintiedig gyda'r sectorau sydd â'r twf uchaf.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd: *"Mae'r cyfleoedd y gallai pwerdy fanteisio arnynt a'u cynyddu yn helaeth. Mae economi'r rhanbarth eisoes yn werth £107bn, sy'n 10% yn uwch na'r Northern Powerhouse a'r Midlands Engine, ond mae ein twf ni yn arafach na'r cyfartaledd. Pe bydden ni ond yn tyfu i gyfateb â chyfartaledd y DU, byddai gennym economi gwerth £1.21bn – meddyliwch am y posibiliadau pe bai'r pwerdy hwn yn cael ei greu."*

Byddai'r pwerdy posibl – sydd eto i fabwysiadu enw ffurfiol – yn ymestyn ar hyd coridor yr M4 o Swindon ac ar draws ffin Cymru i Gaerdydd ac Abertawe, ac i'r gogledd o Gaerloyw a Cheltenham i Gaerfaddon a Bryste. I gefnogi'r fenter hon, mae Cyngor Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Cyngor Swydd Gaerloyw, Cyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Swindon eisoes wedi ymuno â phartneriaid Dinasoedd Mawr y Gorllewin. Darllenwch yr adroddiad yn **www.apowerhouseforthewest.org.uk**

PROJECT I ROI LLAIS I BLANT

Cymerodd disgyblion Dinas Casnewydd ran yn natblygiad pecyn cymorth Cymreig newydd sydd â'r nod o roi plant ynghanol y broses benderfynu gwleidyddol.

Datblygwyd Dod o hyd i dy lais gan Barnardo's Cymru ar y cyd ag Ysgolion Cynradd Pillgwenlli a Milbrook.

Mae'r pecyn cymorth hwn ar gyfer athrawon i'w ddefnyddio gyda'u disgyblion i'w helpu i ddod o hyd i'w lleisiau, dysgu am ddemocratiaeth leol a chynnal gwaith ymchwil.

Gellir cyflwyno'r pecyn hwn sy'n ymwneud â phroblemau perthnasol i blant Cymru i'w hathrawon a llywodraethwyr, yr heddlu a gwleidyddion lleol sydd â'r grym i wneud newid go iawn.

Mae wedi bod yn weithredol yn y ddwy ysgol yng Nghasnewydd yn rhan o Plant yn Gyntaf, dull Llywodraeth Cymru o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc gan sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu'n llwyr wrth lunio eu cymunedau o'r crud i'w gyrfaoedd.

Jessica Sharma, o Barnado's Cymru, ac Eleri Thomas, dirprwy PCC.

DIWRNOD GWYBODAETH I BOBL 50+ OED

Ymunwch â channoedd o bobl yn ystod y Diwrnod gwybodaeth i'r bobl dros 50 oed yng Nghanolfan Casnewydd y mis nesaf.

Caiff y digwyddiad ei gynnal ddydd Sadwrn 19 Hydref, o 10 am tan 3pm, yn y brif neuadd chwaraeon. Bydd y mynediad am ddim ynghyd â lluniaeth ysgafn. Bydd mwy na 100 o stondinau yn cynnig gwybodaeth a chyngor i'r rhai dros 50 oed gan gynnwys ar iechyd a chymorth a gweithgareddau cymdeithasol.

DIWEDD I GYSYLLTIADAU GEFEILLIO

Mae trefniadau gefeillio rhwng Casnewydd a'r sir Tsieiniaidd Guangxi wedi dod i ben.

Cyhoeddwyd y penderfyniad gan y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, mewn cyfarfod llawn y Cyngor ym mis Gorffennaf.

Dilynodd hyn y ddadl a gyflwynwyd gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Debbie Wilcox, yn galw ar Lywodraeth y DU i helpu Cyngor Dinas Casnewydd yn ei ymgais i roi terfyn ar Ŵyl Cig Cŵn Yulin yn rhanbarth Guangxi.

Roedd hyn yn dilyn diffyg ymateb llwyr gan Ranbarth Guangxi i'r llythyr a anfonodd y Cyngor ar 19 Chwefror 2019, yn gofyn iddynt stopio'r Ŵyl a'i thriniaeth warthus o anifeiliaid.

Mae'r cyngor yn galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno achos y ddinas drwy gyfrwng Canolfan Prydain Fawr-Tsieina, corff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ym 1974, ynghyd â'r Swyddfa Dramor, i wneud sylwadau uniongyrchol o'r ddau sefydliad i Lywodraeth Gweriniaeth Pobl Tsieina ynglŷn â dod â'r ŵyl ofnadwy hon i ben ac i gyfleu'r ymateb i Gyngor Dinas Casnewydd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilcox ei bod yn credu y bydd y weithred hon yn rhoi sylw ehangach i'r mater gan fod y trefniant gefeillio bellach wedi darfod drwy ddiffyg ymgysylltiad ers sawl blwyddyn ac mae pob sôn amdano eisoes wedi cael ei ddileu o wefan y Cyngor.

Roedd y cynnig yn newid a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Matthew Evans hefyd a gondemniodd Gŵyl Cig Cŵn Yulin gan alw ar roi terfyn i'r trefniant gefeillio.

CYNLLUN PEDAL POWER AR GYFER PARC TREDEGAR

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflwyno project i ddod ag amrywiaeth o fathau o feiciau, yn addas ar gyfer plant ac oedolion anabl, i Barc Tredegar.

Bydd y fenter am ddim hon yn gwella'r cyfleusterau yn y parc poblogaidd lle mae llwybr beicio gwell hefyd ar y gweill.

Yr elusen Pedal Pŵer fydd yn gyfrifol am broject y beiciau. Bydd modd eu defnyddio am ddim, ac mae'r project yn cael ei ariannu gan arian 106, wedi i nifer o gynlluniau eraill gael eu hystyried ar gyfer Parc Tredegar.

Roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau i gyfleusterau sydd eisoes yno, megis golff bach, parc sblashio, creu ardal ddigwyddiadau; adeiladu parc sglefrio a hyn yn oed cylched caeedig.

Wedi dwys ystyried, fodd bynnag, penderfynwyd mai'r opsiwn gorau, fydd o fudd i lawer iawn o bobol, yw Pedal Power, gan y bydd eu beiciau ar gael i bob oed a gallu. Daw hyn â budd i'r gymuned gyfan gydol y flwyddyn a bydd yn galluogi plant ac oedolion anabl i gael yr un rhyddid â phawb arall wrth feicio yn y parc.

Dywedodd y Cynghorydd Debbie Harvey, yr aelod cabinet dros ddiwylliant a hamdden:

"Roeddwn am sicrhau y gall pobl o bob oed a gallu ddefnyddio amrywiaeth o gyfleusterau ym Mharc Tredegar.

Wedi ystyried nifer o opsiynau, rydym wedi dewis cynllun "Pedal Power" fydd yn galluogi plant ac oedolion anabl i gael yr un rhyddid â phobl eraill. Bydd yn sicrhau y gall teuluoedd plant anabl gael mwy o ryddid i fwynhau'r cyfleusterau gyda'i gilydd.

"Bydd yr amrywiaeth o feiciau a fydd ar gael yn addas at bobl o bob gallu ac oedran."

Mae paratoadau ar y gweill nawr i roi'r project ar waith.

ALLECH CHI OFALU AM UN O BLANT CASNEWYDD?

Os ydy'ch plant chi wedi gadael y nyth i fynd i'r brifysgol neu i fyw'n annibynnol, allech chi helpu pobl ifanc eraill sy'n chwilio am gartref diogel a gofalgar?

Os felly, byddai Maethu Casnewydd wrth eu bodd yn siarad â chi.

Mae gan bob gofalwr ei swyddog maethu ei hyn ac mae rhywun wrth law drwy'r amser i roi cyngor neu i drafod pryderon.

Cynhelir hyfforddiant cyn i chi gael eich derbyn yn ofalwr maeth, ar ddau ddydd Sul olynol yn ystod y cyfnod asesu. Wedi i chi gael eich cymeradwyo, bydd hyfforddiant pellach ar gael.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.newport.gov.uk/fostering**

PEN-BLWYDD PARC BELLE VUE YN 125 OED

Mae dau o barciau poblogaidd Cyngor Dinas Casnewydd ac Amlosgfa Gwent unwaith eto wedi ennill y Faner Werdd.

Datgelwyd enillwyr Cymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus ym mis Gorffennaf. Rhoddwyd y dyfarniad i Barc Belle Vue a Pharc Beechwood a'r amlosgfa i gydnabod eu harddangosiadau blodau ardderchog, eu cyfleusterau a'u hymrwymiad i greu mannau gwyrdd o ansawdd.

Gyda Pharc Belle Vue yn dathlu ei ben-blwydd yn 125 oed eleni, mae'r cyngor wrth eu bodd ei fod wedi cadw ei Ddyfarniad Treftadaeth hefyd.

Mae miloedd o bobl o bob oed yn ymweld â'r parciau poblogaidd hyn drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r arddangosiadau blodau godidog a'r mannau gwyrdd dan ofal tîm parciau a mannau gwyrdd y cyngor.

Mae Cyfeillion Parciau Casnewydd yn gefn mawr iddynt yn eu gwaith.

Dywedodd aelod cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros ddiwylliant a hamdden, y Cyng. Deb Harvey, fod y gwobrau yn cydnabod holl waith caled y tîm gwasanaethau gwyrdd a'r Cyfeillion.

"Mae ennill y gwobrau Baner Werdd mawreddog yn newyddion gwych ac mae unwaith eto'n dyst i waith caled cyson ac ymrwymiad staff y tîm gwyrdd sy'n sicrhau, gyda chymorth y Cyfeillion, bod ein parciau yn fannau gwych i ymweld â nhw a'u mwynhau.

"Ac mae safle'r amlosgfa'n hafan dawel, heddychlon i alarwyr ar adeg mor drist."

Cyflwynir rhaglen Gwobrau'r Faner Werdd yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol, Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

▶ *Y Cynghorydd Deb Harvey gydag arddangosfa flodau Parc Belle Vue, yn nodi pen-blwydd y parc yn 125 oed. Gyda hi, mae aelodau eraill o dîm gwyrdd y Cyngor a Chyfeillion Parciau Casnewydd*

Fe'i beirniadir gan arbenigwyr mannau gwyrdd, sy'n rhoi o'u hamser i ymweld â safleoedd cais a'u hasesu'n erbyn wyth maes prawf cadarn, gan gynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheoli amgylcheddol a chynnwys y gymuned.

Dywedodd Lucy Prisk, cydlynydd y Faner Werdd yn Cadwch Gymru'n Daclus:

"Mae rhaglen Gwobrau'r Faner Werdd yn mynd o nerth i nerth yng Nghymru, diolch i ymrwymiad a brwdfrydedd staff a gwirfoddolwyr ledled y wlad.

"Mae parciau a manna gwyrdd o safon mor bwysig i'n cymunedau, ein hiechyd a'n lles, natur a'r economi.

"Rydym am annog pawb i grwydro eu hardal leol a manteisio i'r eithaf ar y safleoedd rhagorol hyn sydd ar garreg eu drws."

Mae rhestr lawn o enillwyr gwobrau ar wefan Cadwch Gymru'n Daclus **www.keepwalestidy.cymru/cy**

CROESAWU'R GWENYN

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi pleidleisio o blaid cefnogi menter Bee Cause Cyfeillion y Ddaear ar gyfer Casnewydd.

Bydd yr awdurdod yn parhau i sicrhau y bydd unrhyw blanhigion sy'n cael eu plannu ym mharciau, gerddi ac ardaloedd gwyrdd y Cyngor yn cefnogi bywydau gwenyn a pheillwyr eraill.

Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Debbie Wilcox gyflwynodd y cynnig, mewn cyfarfod o'r cyngor llawn ym mis Gorffennaf.

Wrth ddiolch i aelodau am eu cefnogaeth i'r fenter, dywedodd y Cynghorydd Wilcox fod peillwyr yn bwysig dros ben i economi Casnewydd a bod y Cyngor mewn safle da i wneud cyfraniad sylweddol i wrthdroi eu dirywiad.

Yn ogystal, bydd y cyngor yn gwneud eu gorau i sicrhau mai Casnewydd fydd un o'r gyntaf ymhlith dinasoedd mawr Cymru i gael achrediad gwenyn-gyfeillgar. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Laura Lacey, a chafodd gefnogaeth yr aelodau.

PONT GLUDO CASNEWYDD

Mae disgwyl y bydd calendr yn adlewyrchu hanes Pont Gludo Casnewydd drwy'r oesoedd ar werth y mis nesaf.

Bydd y ffotograffau, rhai mewn lliw a rhai mewn sepia, yn dangos yr afon cyn i'r bont eiconig gael ei chodi ac yna'n olrhain y gwaith adeiladu.

Mae Cyfeillion Pont Gludo Casnewydd yn bartneriaid yn y project hwn, ynghyd â Chyngor Dinas Casnewydd.

Bydd arian a godir o werthu'r calendrau yn mynd tuag at gostau cynnal a chadw'r bont. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys dylunio a chodi canolfan gyfoes i ymwelwyr, a chyfleusterau eraill.

CYHOEDDI CASNEWYDD YN DDINAS RHODDWYR

Wrth i Gemau Trawsblaniad Prydain Westfield Health gau, cafodd y ddinas oedd yn eu cynnal, Casnewydd, ei chyhoeddi'n Ddinas Rhoddwyr – dim ond yr ail ddinas yn y DU i gael yr anrhydedd.

Mae'r dyfarniad yn dangos ymrwymiad y bydd gan gasgliad o sefydliadau yng Nghasnewydd ddwy flynedd i'w gwblhau. Dyma'r ail ddinas yn unig i gael yr anrhydedd ar ôl Birmingham a gynhaliodd y Gemau yn 2018.

Nod y ddinas – sy'n benderfynol o adeiladu ar yr ŵyl 4 diwrnod o chwaraeon trawsblaniad – yw cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn trawsblaniadau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon.

Hefyd mae'r ddinas yn awyddus i gynyddu ymgysylltiad pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn y broses drawsblannu. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau cydsynio ymhlith cymunedau BAME tua hanner y gyfradd gyfartalog yn y DU.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, y Cynghorydd Debbie Wilcox: *"Roeddem yn falch o gynnal y Gemau ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y ddwy flynedd ddiwethaf o gynllunio a pharatoi.*

"Mae cael ein henwi'n ail Ddinas Rhoddwyr y DU yn cydnabod ein hymrwymiad i sicrhau bod y gwaith o ran rhoddi organau a'n cymunedau trawsblannu yn parhau."

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y gyfradd gydsynio ar gyfer rhoi organau yng Nghymru wedi cynyddu saith y cant ers y llynedd. Mae gan Gymru'r gyfradd gydsynio uchaf o holl genhedloedd y DU - 77 y cant erbyn hyn, i fyny o 58 y cant yn 2015, pan gyflwynwyd y system newydd o dynnu'n ôl o roi organau.

Mae bron i 57,000 o breswylwyr Casnewydd wedi cofrestru penderfyniad i ymuno â'r gofrestr rhoi organau.

Meddai Dr Paul Harden, cadeirydd Transplant Sport: *"Byddwn yn mynd â'r Gemau i ddinas wahanol bob blwyddyn ac maent yn mynd yn well ac yn well. "Bellach mae Casnewydd hefyd yn Ddinas Rhoddwyr ac mae hyn yn golygu bod hanes bendigedig o roi organau a chefnogi ein cymunedau trawsblannu yn parhau."*

Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd, yn seremoni agoriadol Gemau Trawsblaniad Prydain

CEISIADAU MEITHRIN AC YSGOLION YN 2020

Yng Nghasnewydd gall rhieni ddewis anfon eu plant naill ai i ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg neu i ysgolion ffydd (Catholig neu'r Eglwys yng Nghymru). Os ydych yn ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eich plentyn, ewch i www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/Learning-Welsh-in-Newport/Learning-Welsh-in-Newport.aspx

Mae pob cartref yn nalgylch ysgol Gymraeg a Saesneg lle bydd eich plentyn yn cael blaenoriaeth. Ewch i http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/Schools/Apply-for-a-Place/Apply-for-a-Place.aspx **Ewch i www.casnewydd.gov.uk/derbyniysgolion** i gael gwybod eich dalgylch.

Er nad yw gwneud cais yn gwarantu lle, bydd mynegi dewis o ran ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'ch plentyn dros blant nad yw eu rheini wedi gwneud felly. Ni ellir rhoi lle i'ch plentyn os nad ydych yn gwneud cais.

Bydd rhywun y tu allan i'ch dalgylch sy'n mynegi dewis am eich ysgol ddalgylch yn cael blaenoriaeth uwch na'ch plentyn os nad ydych yn mynegi dewis amdani.

Sylwer ar y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais a chyflwynwch eich cais mewn pryd. Os bydd eich cais yn hwyr, byddwch yn llai tebygol o gael lle yn yr ysgol o'ch dewis.

Os yw'r ysgol rydych wedi gwneud cais ar ei chyfer yn boblogaidd iawn, gellir gwrthod lle i'ch plentyn. Felly mae'n bwysig ystyried cyflwyno dewisiadau i fwy nag un ysgol.

Gellir cynnig lle meithrin dechrau cynnar i blant a anwyd rhwng 1 Medi 2016 a 31 Mawrth 2017 yn y mis Ionawr neu'r mis Ebrill ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed os oes lleoedd ar gael Nid yw plant a anwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Awst 2017 yn gymwys am le i blant sy'n codi'n 3 oed.

Ystyriwch sut bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol oherwydd efallai na fydd yn gymwys i gael cymorth.

Gwnewch gais ar-lein yn **www.casnewydd.gov.uk/derbyniysgolion**

Mae mynediad gwe ar gael ym mhob llyfrgell Casnewydd ac mae am ddim am y 2 awr gyntaf. **E-bostiwch school.admissions@newport.gov.uk os oes unrhyw gwestiynau gennych.**

CHWALU CAMSYNIADAU

- Os ydych yn gwneud cais ar gyfer un ysgol yn unig, bydd y lle hwnnw yn cael ei roi i'ch plentyn - ANGHYWIR
- Os oes brawd neu chwaer gan eich plentyn yn yr ysgol, bydd lle yn cael ei roi iddo ef/iddi hi hefyd - ANGHYWIR
- Os yw eich plentyn eisoes yn mynd i'r ysgol feithrin, mae lle yn y dosbarth derbyn wedi'i warantu iddo/iddi - ANGHYWIR
- Byddwch yn cael lle yn yr ysgol uwchradd os yw'ch plentyn eisoes yn mynd i ysgol gynradd yn y clwstwr - ANGHYWIR
- Eich ysgol ddalgylch bob amser yw'r ysgol sydd agosach atoch - ANGHYWIR
- Mae lle wedi'i warantu i'ch plentyn yn eich ysgol ddalgylch - ANGHYWIR
- Caiff lleoedd eu dal wrth gefn rhag ofn bod teuluoedd yn symud i'r ardal - ANGHYWIR

Os ganwyd eich plentyn rhwng:	Gwneud cais ar gyfer:	Gwneud cais o:	**Dyddiad cau:**
1 Medi 2016 a 31 Awst 2017	Meithrin 2020	10 Gorff 2019	**18 Medi 2019**
1 Medi 2015 a 31 Awst 2016	Derbyn 2020	6 Tach 2019	**15 Ion 2020**
1 Medi 2008 a 31 Awst 2009	Uwchradd 2020	25 Medi 2019	**27 Tach 2019**

HWB MAWR O RAN AILGYLCHU

Mae cyflwyno biniau llai ar draws Casnewydd yn cael y clod am gynnydd mawr mewn ffigurau ailgylchu.

Bu'r Cynghorydd Roger Jeavons, aelod cabinet Cyngor Dinas Casnewydd, yn croesawu'r newyddion wrth iddo ganmol preswylwyr lleol am chwarae eu rhan wrth gynyddu ffigurau ailgylchu i 69.9% yn chwarter cyntaf eleni o'i chymharu â 56% ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

"Rydyn ni'n cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad wedi bod i'r newidiadau ar y dechrau ond mae'r ffigur ailgylchu diweddaraf o 69.6% yn dangos mai'r penderfyniad gorau oedd y newidiadau a ddylai pawb fod yn falch iawn ohonynt â'n bod i gyd yn gwneud ein rhan yn helpu'r amgylchedd a lleihau gwastraff," meddai'r Cyng. Jeavons.

HWB GRANTIAU I FUSNESAU LLEOL

Sefydlodd Joanna Iwanowicz ei busnes dylunio graffeg Ilove Designs ym mis Ebrill 2017 ac mae'n cyflogi un aelod o staff erbyn hyn yn ei gweithdy ar Corporation Road.

Cafodd gymorth grant gan Gyngor Dinas Casnewydd tuag at ei rhent ac argraffydd fformat mawr.

Mae Ilove Designs yn dylunio a chreu deunyddiau a dillad print ac yn cynnig gwasanaethau dylunio gwefannau a logos, graffeg ar gyfer cerbydau, arwyddion lleoliadau, torri laser ac ysgathru.

Roedd Joanna yn hynod ddiolchgar am y cymorth a gafodd gan y cyngor.

"Roedd modd i fi fuddsoddi mewn peiriant newydd sbon yn hytrach na dibynnu ar un ail-law ac mae wedi bod yn hwb mawr i'r gwaith cynhyrchu."

Cyflogodd ei haelod staff drwy Twf Swyddi Cymru ac mae'n bwriadu cyflogi rhagor o staff.

Bu'r Cynghorydd Jane Mudd, aelod cabinet y cyngor dros adfywio a thai, ar ymweliad â Ilove Designs yn ddiweddar lle cyfarfu â Joanna.

"Mae'n hyfryd gweld mentrau creadigol yn ymsefydlu'n y ddinas ac rwyf yn falch iawn bod y cyngor wedi gallu helpu Joanna i ddatblygu ei busnes. Pob llwyddiant iddi i'r dyfodol."

Roedd y Cynghorydd Mudd hefyd yn sgwrsio â'r entrepreneur uchelgeisiol Ameer Shabbir sy'n datblygu busnes digwyddiadau sydd ym mhen ucha'r farchnad o'i ganolfan yng Nghasnewydd.

Ar hyn o bryd mae ei fusnes newydd yn cynnal ychydig o ddigwyddiadau arweinyddiaeth syniadau bob blwyddyn ar gyfer y diwydiant AD, gan ddod ag arweinwyr y maes ynghyd.

Ar hyn o bryd mae'n bwriadu recriwtio staff newydd ac ymhen tair blynedd mae ei gynllun busnes yn rhagweld y bydd 12 aelod o staff a throsiant o £1 miliwn.

Mae Corporate Events Solutions wedi cael ei gefnogi gan grant busnes gan y cyngor a grant cymorth busnes gan is-gwmni Tata Steel, UKSE.

Dywedodd Martin Palmer o UKSE:

"Rydym yn falch iawn ein bod yn gallu rhoi cymorth i'r busnes uchelgeisiol a phellgyrhaeddol hwn sy'n ceisio creu swyddi yng Nghasnewydd wrth iddo dyfu. Mae ganddo fodel busnes clir a dylai fod yn sylfaen dda ar gyfer ehangu yn y dyfodol."

Gall tîm gwasanaethau busnes y cyngor gynnig cyngor arbenigol i fusnesau newydd ac sy'n ehangu yn ogystal ag i'r rhai sy'n ystyried adleoli i'r ddinas – ewch i **www.newport.gov.uk/business** i gael mwy o wybodaeth

▶ *Y Cyng. Jane Mudd a Joanna*

HELP LLAW I'R DIGARTREF

Mae gan Gasnewydd nifer o sefydliadau sy'n gweithio i helpu'r rheiny sy'n ddigartref, mewn perygl o ddigartrefedd neu sy'n byw ar y strydoedd.

Yn rhan o'r rôl hon, mae Tîm Anghenion Tai Cyngor y Ddinas yn gweithio'n galed i helpu teuluoedd ac unigolion sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae pobl ddigartref sy'n gofyn am gymorth y cyngor yn cael eu helpu ar unwaith i ddod o hyd i lety brys ac yna byddant yn cael eu helpu i ddod o hyd i atebion tymor hwy.

Trwy weithio gyda phartneriaid, mae gan y Cyngor nifer o weithdrefnau effeithiol ar gyfer atal a lliniaru digartrefedd ar draws y ddinas ac mae cysgu ar y stryd yn rhan o'r gwaith hwn.

Mae'r cyngor hefyd yn gweithio'n agos gydag elusennau arbenigol megis Eden Gate, The Wallich a The Olive Branch gan eu bod yn cydnabod bod rhai pobl yn ein cymdeithas yn agored iawn i niwed y mae angen cefnogaeth, help ymarferol a chymorth penodol arnynt i dorri'r cylch digartrefedd.

Mae Eden Gate wedi gweithredu lloches nos frys yn ystod misoedd y gaeaf ers 10 mlynedd. Mae'r lloches wedi bod yn llwyddiannus nid yn unig wrth ddarparu lle diogel i gysgu ond hefyd wrth gynnig llwybr i ddianc rhag digartrefedd. Gyda chyllid ychwanegol mae'r lloches bellach wedi cael ei hestyn i ddarparu ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Mae'n dibynnu ar wirfoddolwyr a chyfraniadau gan y cyhoedd. Mae Eden Gate wedi lansio cynllun "noddi gwely" i helpu i ariannu'r cymorth y mae ei angen i helpu defnyddwyr i dderbyn gwasanaethau ailgartrefu neu adsefydlu.

I gael mwy o wybodaeth am y cynllun, neu gyfleoedd gwirfoddoli, ewch **www.edengate.org.uk**

Nod The Olive Branch yw lliniaru anghenion oedolion digartref, neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, trwy ei ganolfan galw heibio sy'n darparu bwyd, diod, lloches, cynhesrwydd, dillad, cyfleusterau ymolchi, cwmni, cyngor, atgyfeirio a chymorth.

Mae'r elusen gofrestredig hefyd yn galw am wirfoddolwyr a cheir mwy o wybodaeth ar ei gwefan **https://alisonolivebranch.wixsite.com/theolivebranch**

Tynnu pobl oddi ar y strydoedd, cadw pobl oddi ar y strydoedd a chreu cyfleoedd i bobl yw tri amcan craidd The Wallich.

Dechreuodd ei waith yng Nghaerdydd ym 1978 ac mae bellach yn gweithredu yn y rhan fwyaf o ardaloedd cyngor yng Nghymru. Mae'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau i bobl â sawl angen cymhleth sydd yn aml yn cael eu hallgáu o wasanaethau eraill ac sy'n cael anhawster i ddod o hyd i lety.

▶ *Llun at ddibenion darluniadol yn unig*

Un o'i brosiectau yng Nghasnewydd yw'r Tîm Ymyrraeth Cysgwyr ar y Stryd (TYCS) sy'n cynnig gwasanaeth allgymorth a chanolfan galw heibio i bobl ddigartref.

Mae'r tîm yn darparu cymorth dyngarol, cefnogaeth a chyngor i bobl sy'n cysgu ar y stryd neu sydd mewn llety ansicr yn y ddinas.

Mae'r ganolfan galw heibio yn amgylchedd diogel draw o'r stryd i hwyluso gwaith cymorth. Yn ogystal â gallu defnyddio ffôn a chyfrifiadur, mae'r ganolfan yn rhoi help i lenwi ffurflenni, ffurflenni cais ac atgyfeiriadau at bartneriaid mewn perthynas â'u hanghenion presennol. Mae The Wallich yn fodlon cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i unigolion sy'n ystyried cyfrannu at liniaru digartrefedd.

Ceir mwy o wybodaeth ar dudalen gwefan Digartrefedd y cyngor.

RHANDIROEDD AR GAEL YNG NGHAE PERLLAN

Mae safle rhandir mawr oedd wedi ei orchuddio â thyfiant ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio wedi'i adfer a bydd yn cynnig bwyd i Banc Bwyd Casnewydd cyn bo hir – diolch i staff Cyngor Dinas Casnewydd, busnesau lleol a gwirfoddolwyr.

Mae rheolwr safle rhandiroedd Cae Perllan, Del Brooks, wedi gweithio'n galed i wireddu'r project a hyd yn hyn mae pump o'r rhandiroedd sydd wedi eu hadfer yn cael eu noddi gan gwmniau lleol.

Fodd bynnag, mae llawer o le ar gael o hyd ar gyfer unigolion a grwpiau i gymryd rhandir i weithio arno eu hunain.

Rhoddodd y Cynghorydd Deb Harvey, aelod cabinet y cyngor dros ddiwylliant a hamdden, ganmoliaeth i'r gwirfoddolwyr, y busnesau a staff y cyngor am eu gwaith ar safle Cae Perllan.

"Mae'r gwaith a wnaed hyd yma ar y safle'n deyrnged i waith caled Del Brooks, gwirfoddolwyr, busnesau lleol a staff y cyngor. Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, hoffwn ddiolch i bawb sy'n cyfrannu at y fenter gymunedol wych hon.

Gall busnesau noddi llain am £60 y flwyddyn, ond yn ddelfrydol byddai'n dda pe gallent ymrwymo i ddwy flynedd, gan mai dyna faint o amser sydd ei angen i baratoi'r rhandiroedd ac i dyfu cynnyrch.

Os hoffai unrhyw un gyfrannu at y project, neu os oes ganddynt ddiddordeb mewn gweithio ar eu rhandir eu hunain, e-bostiwch **delbrooks.caeperllanallotments@outlook.com**

Mae gan y cyngor hefyd amrywiaeth eang o randiroedd yn y ddinas sydd ar gael i'w rhentu. Ewch i **http://www.newport.gov.uk/en/Leisure-Tourism/Allotments/Allotments.aspx** i weld rhestr o safleoedd a chael mwy o fanylion am sut i ddod yn ddeiliad rhandir.

Tîm cynnal tir o'r chwith i'r dde Phil Evans, Andrew Price, Wayne Davis, Frank Rundle a Cliff Mullen.



Arbedwch amser
Ewch ar-lein

Adrodd, Gofyn, Talu ac Olrhain
Gwasanaethau'r Cyngor ar unrhyw adeg
www.newport.gov.uk

Save time
Go online

Report, Request, Pay & Track
Council services at any time
www.newport.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

CANOLFAN GOFAL SEIBIANT PLANT AR EI NEWYDD WEDD

Roedd gan y plant a'r teuluoedd a ddaeth i ffair haf flynyddol Tŷ Oakland yn Nhŷ-du yr haf hwn reswm arbennig iawn dros ddathlu.

Roedd y diwrnod yn nodi agoriad swyddogol y cartref, sydd wedi ei ailwampio diolch i'r cyngor dinas a chronfa gofal integredig (CGI) Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwelliannau'n cynnwys trefn newydd i'r tu fewn, sydd wedi ai aliwampio'n llwyr, ac estyniad yn y cefn, sy'n rhoi mwy o le i blant, a mynediad haws i'r ardd. Mae yno hefyd ddau "bod" newydd lle gall y plant ymlacio.

Mae modd addasu'r wynebau gweithio yn y gegin, er mwyn i blant sy'n defnyddio cadeiriau olwyn allu cymryd rhan mewn gweithgareddau coginio, ac mae'r ystafell synhwyraidd wedi ei hymestyn, ac mae ynddi bellach wres dan y llawr.

Mae Oakland House yn cynnig cyfnodau seibiant byr dros nos i blant a phobl ifanc sydd ag anabledd difrifol, a hynny mewn amgylchedd diogel sy'n maethu ac yn ysgogi. Mae gwasanaeth dydd ar gael yno hefyd.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Cockeram, yr aelod cabinet dros wasanaethau cymdeithasol: *"Mae'r adborth sydd wedi dod gan rieni ers ailagor y ganolfan wedi bod yn gadarnhaol iawn a hoffem ddiolch i bawb am eu hamynedd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.*

"Mae rhieni a gofalwyr yn anhygoel, ond mae angen seibiant byr bob yn hyn y hyn ar y sawl sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae'n hollbwysig bod y plant yn mwynhau eu harhosiad neu eu hymweliad â Thŷ Oakland a bydd y gwelliannau hyn yn gwneud y profiad hyd yn oed yn fwy arbennig."

Ystafell synhwyraidd yn Nhŷ Oaklands

DIGWYDDIADAU

THEATR GLAN YR AFON
01633 656656
www.newportlive.co.uk/**riverfront**

21 Medi, 7.30pm
ShowaddyWaddy

25 Medi, 7.30pm
Noson gyda Lesley Garrett

27 Medi, 8.15pm
Sied Gomedi

2 Hydref
Sinfonia Cymru, cyngerdd amser cinio

ORIEL GELF AC AMGUEDDFA CASNEWYDD
01633 656656
www.newport.gov.uk/**heritage**

Tan 4 Ionawr 2020
Arddangosfa: Hallowed Land – straeon seintiau a phererinion a'r tirwedd yr oeddent yn teithio drosto yn ardal Casnewydd

LEFELAU BYW
01495 353363
www.livinglevels.org.uk

25 Medi, 10am-12pm
Taith Gerdded Pillgwenlli Ddoe a Heddiw – rhaid cadw lle

28 September, 11am-3pm
Rugged Romans and Muddy Monks: Diwrnod Hanes y Gwastadeddau ar diroedd Tŷ Tredegar

THEATR DOLMAN
01633 263670
www.dolmantheatre.co.uk

17-21 Medi, 7.15pm
Cymdeithas Mynychwyr Dramâu Casnewydd: Lord Arthur Savile's Crime

25-28 Medi, 7.15pm
Young Venture Players: Aida